

Yn bresennol:

Jenny Rathbone AC (Cadeirydd)

Huw Irranca-Davies AC

David Melding AC

George Watkins, Swyddfa Jenny Rathbone

Sioned James, Ymchwilydd Grŵp Plaid Cymru

Patrick Holden, Cyfarwyddwr Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy

Shea Buckland-Jones, WWF Cymru

Pearl Costello, Synnwyr Bwyd Cymru

Haydn Evans (Pennaeth Ffermio, Cymdeithas Pridd Cymru)

Lisa Williams (Hwylusydd Hyfforddiant Maeth Cymru Gyfan – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro)

David Lloyd Thomas, Pennaeth yr Uned Polisi Bwyd yn Is-adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru

Nick Fenwick, Swyddog Polisi FUW

Rhys James, Prif Swyddog Caffael, Cyngor Caerffili

Rhys Evans, RSPB

Louise Shute, Rheolwr Rhaglen – Dod Ynghyd ar gyfer Bwyd am Oes, GIG

Graeme Wilson, Slade Farm Organics

Tony Little

Don Woosnam, Woosnam Dairies, Bargoed

Sian Woosnam, Woosnam Dairies

Andrew Collinge, Mudiad Bwyd Araf

Croesawodd JR bobl i'r cyfarfod a chyflwynodd pawb eu hunain

Agorodd **Patrick Holden (PH)** y drafodaeth am **Gynllun Bwyd sy'n Gyfeillgar i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru.**

Mae'r systemau bwyd a ffermio cyfredol ymysg y prif resymau dros yr argyfwng hinsawdd presennol, ond gallant hefyd ddod yn rhan o'r ateb.

Defnyddiodd ei 46 mlynedd o brofiad o ffermio yn Bwlchwernen Fawr yng Ngorllewin Cymru i ddangos beth y gellir ei wneud.

Mae ganddo 50% o gnydau cylchdroi a 50% o dir pori ar gyfer anifeiliaid pori. Mae'r tail yn cael ei gompostio a'i ddefnyddio i gyfoethogi'r pridd. Y ffordd orau i adeiladu carbon pridd yw trwy symud gwartheg bob 24 awr. Caiff stiwardiaeth carbon pridd ei gyflawni o'r tail, sathru, glaswellt a meillion sy'n gwrthbwysu'r methan a gaiff ei allyru gan yr anifeiliaid. Nid yw'r fferm yn defnyddio unrhyw wrtaith nitrogen. Mae gwrtaith nitrogen yn lleihau amrywiaeth ar dir y fferm, a amlygwyd yn yr adroddiad Cyflwr Natur. Ni fyddai angen cynlluniau stiwardiaeth pe byddem yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrteithwyr nitrogen. Mae'r fferm yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy i redeg yr hufenfa lle maen nhw'n gwneud caws. Mae'r fferm yn hunangynhaliol mewn porthiant gwartheg. Mae'n anghynaliadwy mewnforio gwellt o Loegr i Gymru.

Dylai ffermydd gael eu hystyried yn ganolfannau cymdeithasol ac addysgol sydd o fudd i gymdeithas, yn hytrach na chael eu hymyleiddio fel ag y maent ar hyn o bryd. Dylai'r cynllun taliadau amaethyddol nesaf wobrwyo ffermio yn ariannol am arferion cynaliadwy ac atal taliadau am arferion nad ydynt yn gynaliadwy.

Mae mwy na 100 o ddiffiniadau o gynaliadwyedd ledled y byd. Sut y gellid eu dwyn ynghyd mewn un cynllun? Byddai angen archwiliad cynaliadwyedd blynyddol ar bob

fferm er mwyn sbarduno gwobrau. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau – gan eu bod eisoes yn gwneud yn llawer gwell na DEFRA.

Derbyniodd **Huw Irranca Davies** y gallai ffermio cynaliadwy fod mor gynhyrchiol/yn fwy cynhyrchiol na mathau eraill o ffermio modern.

Os ydym yn talu ffermwyr i newid i fodel cynaliadwy, sut y gallwn beidio â rhoi pobl sydd eisoes yn gwneud y peth iawn dan anfantais? A fyddent yn gymwys i gael gwobr ychwanegol?

PH- Gellid dilyn taliadau trosi gan daliadau cynnal a chadw. Byddai mesurau cywir o ganlyniadau cynaliadwyedd yn atal y broblem hon.

Ni allem wobrwyo pawb ar y strategaeth hon, e.e. byddai grawn yn gostwng o hanner ac yn dyblu mewn pris. Byddai cyw iâr/porc rhad yn anhyfyw. Byddai cig coch o anifeiliaid sy'n cael eu bwydo gan laswellt yn dod yn rhatach. Byddai angen buddsoddi mewn addysg gyhoeddus yn yr hyn i'w fwyta. Beirniadol o ddeietau wedi'u seilio ar blanhigion yn unig. Rhaid symud i ddeietau cynaliadwy sy'n berthnasol i'n hinsawdd sy'n gydnaws â system ffermio gynhyrchiol, gynaliadwy.

Roedd **David Melding** yn falch y gallai cig gael ei gategoreiddio fel bwyd cynaliadwy, fel un sy'n frwd dros gig coch.

PH- Mae'n anghywir targedu cig coch. Mae hyd yn oed David Attenborough yn anghywir am hyn. Mae angen negeseuon cyhoeddus gwell am ddeiet. Mae'r negeseuon cyfredol ynglŷn â beth i'w fwyta a bod yn gynaliadwy yn anwybodus ar hyn o bryd.

Cytunodd **Nick Fenwick** â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedwyd. Mae rhoi'r gorau i ffermio cymysg yn arwain at ddiraddio'r amgylchedd. Roedd yn anghytuno y gallai Cymru wneud hyn ar ei phen ei hun. Byddai tynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer ffermio dwys yn arwain at fewnforio cynhyrchion a gynhyrchir yn ddwys, fel a ddigwyddodd gyda chynhyrchu porc. Mae FUW yn cynrychioli ffermwyr mawr a bach gydag amrywiaeth enfawr mewn amodau ffermio. Teithiwch ddeng milltir a bydd y ffermydd yn hollol wahanol. Felly mae angen rhwyd ddiogelwch ar y taliadau fferm newydd i ystyried hyn i gyd os ydym am osgoi rhoi'r gorau i ffermio cymysg. Mae'r Alban yn ystyried bod bwyd yn les cyhoeddus. Mae'n cytuno â Llywodraeth Cymru nad ydyw. Roedd yn dda clywed Plaid Lafur y DU yn dweud bod yn rhaid i nwyddau cyhoeddus fod yn rhan o'r darlun cyffredinol yn unig. Mae creu swyddi a'r bwyd rydyn ni'n ei gynhyrchu hefyd yn hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cael trafferth gyda hyn.

PH- Mae darparu swyddi yn fudd cyhoeddus. Ychydig o anghytuno sydd rhyngom. Mae angen mireinio'r diffiniad o les y cyhoedd fel ein bod yn tynnu sylw at le mae'r farchnad yn methu â sicrhau incwm a chanlyniadau cynaliadwy. Mae angen ei gwneud yn glir bod gwneud y peth iawn yn cael ei wobrwyo ac nad yw'r peth anghywir yn cael.

NF- Mae'r UE yn gwneud yn dda o ran datblygu'r dull hwn.

Don Woosnam- Mae archfarchnadoedd wedi ystumio'r farchnad trwy fynnu mai dim ond un cyflenwr sydd o gynhyrchion llaeth. Aeth Tomlinsons, prosesydd a dosbarthwr llaeth mwyaf Cymru allan o fusnes, oherwydd telerau a bennwyd gan

Sainsbury. Mae 50% o'r llaeth a gynhyrchir o fuchod nad ydynt byth yn gweld nac yn bwyta glaswellt. A yw archfarchnadoedd wir yn poeni o ble mae llaeth yn dod cyhyd â'i fod yn rhad? Mae'n newid enfawr i laethdai ac ati ymrwymo i'r newidiadau hyn. Pan waharddwyd clymu moch, dim ond allforio'r broblem a wnaethom.

PH- Mae polisi rheoli categori gan archfarchnadoedd yn ofnadwy. Mae'n difetha lladd-dai/cynhyrchwyr ac ati. Mae gostyngiad enfawr mewn ffermydd teulu bach sy'n cael ei yrru gan gyfrifeg anonest. Mae angen arian i yrru pethau i gyfeiriad gwell. Dylai ffermwyr nad yw eu gwartheg yn mynd allan i laswellt gael eu cosbi'n ariannol rhag derbyn arian cyhoeddus. Ni ddylai bod cymhorthdal cyhoeddus am bethau sydd o ddim budd i les y cyhoedd.

NF- Mae FUW yn cynrychioli pawb o ffermydd bach i ffermydd enfawr. Y broblem yw defnyddwyr yma. Nid yw'n realistig ar gyfer yr holl bethau organig, a gynhyrchir yn lleol. Mae pobl eisiau bwyd rhad. Nid oes modd ei rithro. Yn y pen draw, byddwn yn allforio'r broblem i wledydd eraill. Mae symud y cynhyrchu i wlad arall yn gwaethygu'r broblem ac yn gwaethygu ein sefyllfa ariannol.

PH- Mae'n bosibl mai un o effeithiau Brexit fydd rhwystr o ran tariff i atal mewnforio pethau rhatach â difrod amgylcheddol uwch. Mae'r pris yn cynyddu ar fwyd rhad ac yn gostwng cost bwyd sy'n gynaliadwy.

NF- Byddai pobl yn rhoi'r gorau i brynu ein bwyd. Ddim eisiau rhuthro yn rhy gyflym.

PH- Felly rydyn ni'n cael gwledydd eraill y DU i'w wneud hefyd ac yna'n delio â gwledydd eraill.

NF- Mae angen mynediad i America ar ôl Brexit. Trafodaethau anodd.

PH- Mae Belt Corn yr UD yn anghynaliadwy.

Graeme Wilson- Mae fferm PH fel ein un ni yn Slade Farm. Mae Mega-laethdai ac ati yn niweidiol yn y tymor hir. Nid ydym yn gallu peidio symud ymlaen.

Jenny Rathbone- Mae 80% o economi'r DU yn dibynnu ar wasanaethau. Ar ôl Brexit, pa siawns sydd yna y byddai Llywodraeth y DU yn sefyll dros ein ffermwyr yn erbyn y don o fwyd rhad y mae'r UD eisiau ei ddympio arnom?

NF- Mae'r cyfraddau tariff arfaethedig yn dweud wrthym ble'r ydym ar restr flaenoriaeth Llywodraeth y DU. Mae allforio cynhyrchion amaethyddol yn wynebu tariffau uchel iawn o bosibl.

Shea Buckland Jones – Mae llawer o strategaethau yn cael eu datblygu. Sut olwg sydd ar system gynaliadwy? Mae'r ffaith nid yn unig ar newid yn yr hinsawdd ond ar fioamrywiaeth, yn ogystal ag iechyd y cyhoedd. Mae llygredd dŵr croyw yn peri pryder mawr. Beth yw effaith datgoedwigo yng Nghymru?

PH- Mae angen arweinyddiaeth. Mae Cymru yn ddigon bach i arwain y byd gyda newid cyflym.

David Lloyd Thomas- Mae'n rhaid i ni ystyried y system fwyd fyd-eang. Mae pobl yn prynu ar sail pris yn bennaf, mae ymchwil yn cadarnhau. Felly beth allwn ni ei wneud? Canolbwynto ar gryfhau cadwyni cyflenwi a sut i ddarparu help a chymorth i fusnesau. Mae LIC yn datblygu clystyrau o fusnesau sydd yn rhannu diddordebau – mae eisiau gweld mwy o hyn. Mae gweithio gyda'n gilydd yn hanfodol ar gyfer datblygu. Mae'n gwella amrywiaeth a gwytnwch. Mae Cernyw yn bragu cwrw gyda haidd Cernyw; yr unig gynhwysyn o Gymru mewn cwrw wedi'i fragu yng Nghymru yw'r dŵr. Dylai Cymru ddilyn esiampl Cernyw.

PH- A fydd gan Llywodraeth Cymru bolisi i gymell busnesau bwyd a ffermydd i ail-leoli cadwyni cyflenwi? E.e. sut mae cael cig Cymreig yn ôl i'r cadwyni cyflenwi? Bwydwch eich cenedl eich hun, yna meddyliwch am allforio. Mae'r isadeiledd i wneud hyn wedi bod yn chwalu ers tro.

DLT- Nid oes gennym bolisi ar ladd-dai. Y polisi yw gweithio gydag unrhyw un rydyn ni'n meddwl sydd â'r potensial i fynd i rywle.

PH- Nid oes cig lleol heb ladd-dy lleol.

DLT- Nid ydym am gael ein caethiwo trwy benderfynu faint o bethau lleol sydd angen eu gwneud yng Nghymru.

PH- Mae globaleiddio'r system fwyd yn drychinebus. Dylai'r Llywodraeth gamu i'r adwy i frwydro yn erbyn methiant y farchnad.

DLT- Rydych chi'n camddeall; mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi miliynau dros y blynyddoedd. Mae dull rhy gyffredinol wedi'i ddefnyddio.

Andrew Collinge- Garddwr ydw i, nid amaethwr. Rwy'n cymryd rhan mewn adfer mathau brodorol fel Eirin Dinbych. Gall y pethau hyn yrru'r economi bwyd a diod leol. Mae hydroponeg yn cynnig posibiliadau newydd; gallem ddefnyddio llaethdai diangen i dyfu mwy o fwyd.

PH- Yn anhapus â hydroponeg fel syniad.

Haydn Evans- Yn dod o gefndir ffermio teulu yng Ngogledd Cymru. Pryderon o ran colli gwartheg yn pori ac ati. Mae'n gobeithio y gall polisi newydd annog dychwelyd hen systemau a'i gwneud yn fwy proffidiol. Mae'n cytuno â NF nad yw bwyd yn fudd cyhoeddus, mae ganddo werth ar y farchnad. Ond mae'r ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu yn lles cyhoeddus yn llwyr. Annog ffermio lleol a chynaliadwy. Wedi trafod hyn gyda Lesley Griffiths. Mae'r hyn rydyn ni'n ei gynhyrchu a sut rydyn ni'n ei gynhyrchu yn allweddol.

PH- Mae rôl cyrff anllywodraethol yn hanfodol. Mae llawer o aelodau ledled y DU. Mae angen stopio pardduo cig coch.

Louise Shute- Dinasyddiaeth bwyd. Rhoi rhan i bobl ynddo. Addysg a sut y gallwn ei adeiladu ar lawr gwlad. Mae addysgu'r cyhoedd yn bwysig iawn. Hynny yw, byddai'r system safonol o becynnu bwyd yn llawer mwy addysgiadol.

PH- Mae gwthio dinasyddion yn hanfodol yma.

JR- Mae cwmnïau mawr yn gwario miliynau ar annog pobl i brynu bwyd gwael nad yw'n rhad. Mae'r stwff yn gwenwyno pobl.

NF- Mae pobl yn prynu ar sail pris oherwydd tlodi bwyd.

JR- Nid yw hynny'n rhad pan ystyriwch y gwerth maethol. Rydym wedi colli cysylltiad â beth yw bwyd maethlon. Ar yr un pryd, mae bwyd yn rhy rhad oherwydd ein bod yn gwastraffu cymaint ohono. Mae tlodi bwyd yn broblem sylweddol. Mae bwyd ysgol yn hanfodol i lawer o deuluoedd, mewn rhai achosion yr unig fwyd y mae plant yn ei gael. Yfory rydyn ni'n trafod Pwysau Iach: Cymru Iach; ni yw'r genedl fwyaf gordew yn Ewrop.

Lisa Williams- Mae cydberthynas rhwng y tlotaf a diabetes, clefyd y galon ac ati. Rhaid gwneud bwyd da yn fforddiadwy.

PH- Nid yw safonau Bwyd am Oes (Cymdeithas y Pridd) mor uchel â hynny. Yn Copenhagen mae gan y Maer bolisi bod yn rhaid i bopeth ar blatiau fod yn gynaliadwy ac yn lleol. Mae 90-100% o'r bwyd yn lleol ac yn organig. Nid oes angen canolbwyntio ar globaleiddio.

Tony Little- Mae plant yn Copenhagen yn llawer iachach. Pwysigrwydd polisi'r gadwyn gyflenwi.

Rhys James- Mae angen mwy o ffocws ar gosbi ymddygiad gwael, lle mae ysgolion ac ati yn methu â chydymffurfio â chanllawiau. Mae Caerffili yn awyddus i weithio gydag eraill ar arfer da.

NF- Yn flaenorol, pasiodd y Cynulliad ddeddfwriaeth Masnach Deg ar gyfer bwyd a weinir yn eu hadeiladau. Mae coffi yn iawn, ond a fyddai cig Masnach Deg yn hyfyw i sefydliadau llai yng Nghymru? Rydyn ni wedi bod yn gofyn i wahanol lywodraethau am drafodaethau gydag archfarchnadoedd mewn perthynas â Brexit. Pa mor aml maen nhw'n cwrdd â'r archfarchnadoedd mawr i asesu sut maen nhw'n trin pobl maen nhw'n caffael ganddynt? Mae angen ewyllys gwleidyddol i wynebu archfarchnadoedd yn iawn.

PH- Nid oes unrhyw un yn anghytuno â'r hyn rydyn ni'n ei ddweud o amgylch y bwrdd hwn. Nid yw'n teimlo bod anghytuno sylweddol bellach rhwng sefydliadau. Gallai dull cydweithredol wneud gwahaniaeth enfawr. Byddai alinio gan sefydliadau yma heno yn gwneud i archfarchnadoedd gymryd sylw.

TL- Mae angen sôn am wastraff bwyd fel y mater allweddol nesaf mewn perthynas ag argyfwng hinsawdd. Dywedir wrthym yn gyson bod amaethyddiaeth yn cyfrannu 12% o allyriadau, ond mae gwastraff bwyd yn cyfrannu 8%. Awgrymu fod gennym bolisi prynu gwahanol. Os collwn y gefnogaeth a gawn gan Gomisiwn yr UE, a allai LIC gamu i'r adwy i atal arferion masnachu annheg ac ati?

JR- Mae'n dda gweld pawb yn cytuno. Mae angen defnyddio pŵer caffael cyhoeddus. Mae ysbytai yn dechrau gwahardd bwyd sydd ddim yn iach o'u

ffreuturau a'u prydau bwyd sy'n cael eu gweini i gleifion. Mae angen cadw at y rheoliadau Blas am Oes a'u cryfhau.

Diolchwyd i Patrick Holden am ennyn trafodaeth mor ysgogol.

Materion yn codi o'r cofnodion diwethaf: unrhyw bwyntiau o ran cywirdeb, rhowch wybod i JR. Tynnwyd sylw at rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gael cyrff cyhoeddus i weithredu ar y cyd. Llawer o gyfleoedd ddim yn cael eu cymryd. (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru)

Dyddiad y cyfarfod nesaf I'w gyhoeddi unwaith y bydd y siaradwr/pwnc wedi'i nodi.